DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Smiles Better (Practis Preifat)

Dyddiad Arolygu: 30 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 2 May 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-9068-0
© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Canfyddiadau .......... 5
   - Ansawdd profiad y claf .......... 5
   - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .......... 8
   - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .......... 14
5. Y Camau Nesaf .......... 16
6. Methodoleg .......... 17
   - Atodiad A .......... 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Smiles Better yn 2–4 Baker Street, y Fenni, NP7 5BB, ar 30 Ionawr 2017.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Smiles Better yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Smiles Better yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig ac wedi ei leoli yn y Fenni.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pum deintydd, wyth nyrs ddeintyddol, tri hylenydd, un therapydd, dau dderbynnydd, un rheolwr practis, ac un glanhawr.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol fod Smiles Better yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd offer digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roedd yn amlwg eu bod yn lân ac yn daclus.
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael yn dangos bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio'n ddiogel.
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch dîm y practis.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymell y gallai'r practis ei wella:

- Mae angen cofnodi archwiliadau o offer dadheintio er mwyn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau cenedlaethol.
- Mae angen cynnal archwiliadau ar yr holl offer brys i sicrhau bod yr offer ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio os bydd argyfwng claf (llewyg).
- Mae angen i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â chanllawiau ar hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd.
- Mae angen i'r practis gynnal cofnodion imiwneiddio ar gyfer staff clinigol.
- Mae angen i'r practis gofrestru offer laser ar gyfer triniaethau deintyddol gydag AGIC i ganiatáu i ddeintyddion barhau i'w defnyddio.
- Mae angen i'r deintyddion wella agweddau ar eu gwaith cadw cofnodion.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin gydag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion a wnaeth sylwadau eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a gynigir gan y practis.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith y cleifion i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 26 i ni. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *'Practis hyfryd, bob amser yn barod i helpu. Cyfeillgar a phroffesiynol. Yn derbyn y triniaethau gorau bob amser, byddwn yn ei argymell 100%.'*
>
> *'Hapus dros ben. Rwy'n glaf nerfus iawn ac maen nhw bob amser yn fy helpu i gael drwy'r driniaeth sydd ei hangen.'*
>
> *'Rwyf wedi bod yn fodlon â'r gwasanaeth i mi ei dderbyn erioed. Rwyf wedi teimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi'n bersonol a'u bod yn gwrando arnaf i.'*

Dywedodd yr holl gleifion a ddychwelodd holiadur eu bod yn fodlon iawn gyda'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt.

<u>Gofal ag urddas</u>

Gwelsom fod yr ymgysylltiad rhwng y staff a'r cleifion yn gyfeillgar, yn barchus ac yn broffesiynol.

Roedd holiaduron cleifion a gwblhawyd yn dangos bod yr holl gleifion yn fodlon gyda'r gofal yr oeddent yn ei dderbyn. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael eu croesawu gan y practis. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain am lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd ac agwedd a dull tîm cyfan y practis.

Roedd y practis yn darparu triniaethau deintyddol preifat yn unig. Nid oedd gwybodaeth am brisiau triniaeth ddeintyddol wedi ei harddangos i'r cleifion ei gweld. Mae'n rhaid arddangos prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol fel bod gan y cleifion wybodaeth eglur am faint y gallai eu triniaeth ei chostio. Cytunodd y practis i wneud hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat mewn man amlwg.***

Roedd taflen wybodaeth y practis yn cynnig gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael yn y dderbynfa i gleifion ei darllen a mynd â hi gyda nhw.

<u>Gofal amserol</u>

Roedd y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym nad oeddent wedi dioddef oedi cyn cael eu gweld gan ddeintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y rhai a oedd wedi profi oedi fod unrhyw oedi wedi bod yn fyr a bod y practis wedi cynnig esboniad am yr oedi. Fe'n hysbyswyd y byddai cleifion yn cael eu hysbysu am unrhyw oedi i'w hapwyntiadau gan y derbynnydd ac apwyntiadau eraill yn cael eu cynnig yn ôl y gofyn.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion gysylltu pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi ei gynnwys gyda'r daflen wybodaeth i gleifion ac ar neges peiriant ateb y practis. Argymhellwyd gennym efallai yr hoffai'r practis ystyried cynnwys y rhif ffôn ar wefan y practis hefyd. Dywedodd mwyafrif y cleifion a ddychwelodd holiaduron eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth y tu allan i oriau.

<u>Cadw'n iach</u>

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion yn y practis er mwyn helpu i hybu iechyd a hylendid y geg.

Roedd gwefan y practis hefyd yn cynnig cyngor ychwanegol ar ffurf 'cwestiynau cyffredin' am driniaethau deintyddol i blant a phobl hŷn, a mewnblaniadau deintyddol.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym yn ddieithriad eu bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod rhai cleifion wedi cynnig sylwadau ychwanegol yn yr holiaduron yn dweud eu bod wedi cael eu hysbysu'n llawn am eu triniaethau.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd gan y practis drefniadau ar waith fel y gallai cleifion ag anawsterau symud gael mynediad at ei wasanaethau. Roedd y practis wedi'i leoli ar ddau lawr adeilad dau lawr. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion nad oeddent yn gallu

cyrraedd yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr cyntaf yn cael cynnig apwyntiad yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwynion ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i godi pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y dderbynfa. Roedd gwybodaeth am sut i gael copi o'r polisi cwynion hefyd wedi ei chynnwys yn nhaflen wybodaeth y practis. Argymhellwyd gennym y dylid diweddaru'r weithdrefn gwynion i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer AGIC. Argymhellwyd gennym hefyd y dylai'r weithdrefn gwynion gael ei chynnwys ar wefan y practis, fel y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol[1] yn ei wneud yn ofynnol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i weithdrefn gwynion y practis gynnwys manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.***

***Mae'n rhaid cynnwys y weithdrefn gwynion ar wefan y practis.***

Fe'n hysbyswyd bod y cleifion yn gallu cynnig adborth ar lafar ond nid oedd gan y practis system ar waith ar gyfer derbyn adborth cleifion yn rheolaidd ar y gofal a'r driniaeth a ddarperir iddynt. Cytunodd y staff i roi hyn ar waith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gyflwyno system ar gyfer derbyn adborth rheolaidd yn ymarferol gan gleifion ar y gwasanaeth a ddarperir.***

---

[1] http://www.gdc-uk.org/Dentalprofessionals/Standards/Documents/Ethical%20advertising%20statement%20Jan%202012.pdf

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Canfuwyd gennym fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd adeilad y practis yn amlwg wedi ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan.**

**Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r broses o gofnodi archwiliadau ar yr offer sterileiddio.**

**Er bod archwiliadau o gyffuriau ac offer brys yn cael eu cynnal, gwelsom fod angen gwneud hyn yn fwy rheolaidd.**

**Canfuwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn rheolaidd yn unol â'r canllawiau perthnasol.**

**Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio'n ddiogel.**

<u>Gofal diogel</u>

Canfuwyd gennym fod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom yn ystod taith o gwmpas yr adeilad fod pob rhan ohono yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y practis. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod gan y practis gontract ar waith ar gyfer archwilio'r offer er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Roedd contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Roedd offer gwahanu amalgam wedi eu gosod fel y gellid tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arno'n ddiogel. Roedd trefniadau gyda'r cyngor lleol ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (cartref).

Edrychwyd ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac yn daclus ac wedi'u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol yn gyffredinol. Gwelsom fod angen selio'r lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth i ganiatáu glanhau effeithiol er mwyn lleihau croes-heintio. Fe'n

hysbyswyd bod cynlluniau i ailwampio un o'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn 2017, i gynnal safonau yn y practis.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y lloriau wedi'u selio rhwng y cypyrddau a'r llawr presennol (neu wneud trefniadau addas eraill) i atal dŵr, llwch a gweddillion rhag casglu yn yr ystafelloedd triniaeth a nodwyd.***

Roedd ystafell ddadheintio ar wahân wedi ei sefydlu ac yn bodloni'r egwyddorion a nodir yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)[2] yn gyffredinol. Roedd tair sinc ar wahân yn yr ystafell ddadheintio. Roedd y practis yn defnyddio un sinc ar gyfer dŵr ïoneiddio, un ar gyfer glanhau, ac un ar gyfer golchi dwylo. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ddefnyddio dwy sinc ar wahân ar gyfer glanhau offerynnau, fel yr argymhellir gan WHTM 01-05. Cytunodd y practis i wneud y newid hwn ar unwaith a gwelsom fod y sinc ar gyfer golchi dwylo wedi cael ei symud, gan ganiatáu'r defnydd o ddwy sinc at ddibenion dadheintio yn unig.

Roedd yn ymddangos bod offer a ddadheintiwyd mewn cyflwr da o'u harchwilio. Roedd dau beiriant aerglos[3] yn cael eu defnyddio a gwelsom dystysgrifau arolygu yn dangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom, a dywedwyd wrthym, fod profion wedi cael eu cynnal i ddangos bod offer glanhau a sterileiddio yn dal i fod yn ddiogel i'w defnyddio fel yr argymhellir gan WHTM 01-05. Nid oedd y practis yn cadw cofnodion o'r profion dechrau'r dydd a gynhelir ar yr offer aerglos; nid oedd chwaith yn cadw canlyniadau profion o offer baddon uwchsain. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ystyried cyflwyno llyfr cofnod cydnabyddedig i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi.

---

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[3] Siambr pwysedd a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy eu cyflwyno i ager dirlawn pwysedd uchel yw peiriant aerglos.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â chanllawiau a nodir yn nogfen ganllawiau WHTM 01-05 (Diwygiad 1) o ran:***

- ***Cynnal profion a gwaith ar offer aerglos a baddon uwchsain***
- ***Cadw cofnodion o brofion ar offer***

Dangoswyd proses ddadheintio gan y staff a gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddadheintio offerynnau. Roedd offerynnau'n cael eu storio mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Er bod y dyddiadau prosesu (glanhau a sterileiddio) wedi eu hysgrifennu ar becynnau, argymhellwyd gennym y dylid ychwanegu'r dyddiadau y mae'n rhaid defnyddio neu ailbrosesu offerynnau yn eu herbyn hefyd, er mwyn cydymffurfio'n llawn â WHTM 01-05.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gofnodi'r dyddiad y dylid defnyddio neu ailbrosesu'r offer yn ei erbyn ar becynnau offerynnau a ddadheintiwyd.***

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad o'r trefniadau dadheintio. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ystyried defnyddio'r dull archwilio sydd wedi'i alinio'n benodol â WHTM 01-05 yn y dyfodol, yn rhan o'i weithgarwch gwella ansawdd. Cytunodd y staff i ystyried defnyddio'r dull hwn.

Gwelsom fod un deintydd wedi bod yn defnyddio laser i gyflawni rhai triniaethau deintyddol. Ar adeg ein harolygiad, cadarnhawyd gennym nad oedd y practis wedi ei gofrestru gydag AGIC ar gyfer defnyddio laser. Cyfarwyddwyd y practis felly na ddylai'r laser gael ei ddefnyddio tan y bydd penderfyniad llwyddiannus wedi cael ei wneud ar gais i gofrestru gydag AGIC. Rhoddodd y practis sicrwydd llafar ac ysgrifenedig na fyddai'r laser yn cael ei ddefnyddio.

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (ymgwympiad). Gwelsom gofnodion hefyd yn dangos bod y cyffuriau a'r offer yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Argymhellwyd gennym y dylid cynnal archwiliadau wythnosol ar gyffuriau ac offer brys yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru

(DU).[4] Cadarnhaodd y practis y byddai hyn yn cael ei gyflwyno ar unwaith. Gwelsom fod rhywfaint o'r offer brys (llwybrau anadlu yn benodol) heibio eu dyddiad terfyn ac roedd angen set lawn o fygydau wyneb o wahanol feintiau ar y practis hefyd. Hysbyswyd rheolwr y practis am ein canfyddiadau a rhoddodd sicrwydd llafar y byddai camau'n cael eu cymryd i ddatrys hyn. Gwelsom ar ddiwrnod ein harolygiad fod yr offer perthnasol wedi cael eu harchebu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis wneud trefniadau priodol i sicrhau, yn unol â'r safonau ansawdd a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU):***

- ***Bod pecyn brys llawn bob amser ar gael yn y practis, a***
- ***Bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr offer brys.***

Roedd cofnodion hyfforddiant yn dangos bod mwyafrif y staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn flynyddol. Nid oeddem yn gallu gweld cadarnhad nac ardystiad o hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd wedi'i gwblhau ar gyfer dau aelod o staff clinigol. Yn unol â phroses AGIC, gofynnwyd am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan y practis o'r camau a gymerwyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella (sy'n gofyn am gynllun gwella ar unwaith)***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn flynyddol a sicrhau bod tystysgrifau ar gael i'w harchwilio gan AGIC.***

Darparodd y practis gynllun gwella ar unwaith i AGIC. Fe'n sicrhawyd bod trefniadau priodol wedi cael eu gwneud i roi sylw i'r gwelliant angenrheidiol.

Daethpwyd i'r casgliad gennym fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol am y defnydd diogel o offer pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod y deintyddion yn gyfredol o ran eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio ac yn bodloni'r canllawiau a gyflwynwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom fod y Ffeil Diogelwch Ymbelydredd wedi cael ei hadolygu'n ddiweddar iawn gan y

[4] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hybu canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n gymwys i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, ymchwil a chydweithredu.

Cynghorydd Diogelwch Ymbelydredd a'i dychwelyd i'r practis. Gwelsom fod y rheolau lleol wedi cael eu hailgyflwyno gan y Cynghorydd Diogelwch Ymbelydredd ond nad oeddent wedi cael eu llofnodi gan y staff sy'n defnyddio'r offer radiograffig eto. Argymhellwyd gennym fod yr holl staff priodol yn llofnodi'r rheolau lleol sydd newydd gael eu cyhoeddi.

Gwelsom fod archwiliadau ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd yn rhan o'r gweithgarwch monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl gyda chymryd delweddau pelydr-X ac yn nodi lle dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion a gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos hyn.

Cadarnhaodd y staff i ni siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith y gallai fod ganddynt gyda staff uwch y practis, ac roeddent yn hyderus y byddai camau'n cael eu cymryd yn eu sgil.

<u>Gofal effeithiol</u>

Dangosodd trafodaethau gyda thîm y practis ymrwymiad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol i nodi meysydd i'w gwella ac archwiliadau o offer i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur a oedd dull systematig yn nodi pryd y byddai archwiliadau penodol yn cael eu cynnal. Argymhellwyd gennym fod y practis yn ffurfioli'r broses ar gyfer cyflawni gweithgarwch archwilio trwy gydol y flwyddyn.

Ystyriwyd sampl o gofnodion deintyddol cleifion gennym i asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Yn gyffredinol, roedd y nodiadau a wnaed yn ddigon manwl. Fodd bynnag, nodwyd y themâu cyffredin canlynol gennym lle dylai gwelliannau gael eu gwneud:

- Nid oedd hanesion meddygol wedi cael eu cydlofnodi gan y deintyddion bob amser. Byddai hyn yn dangos bod y deintyddion wedi cymryd cyflyrau meddygol cleifion ac unrhyw feddyginiaethau yr oeddent yn eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio gofal a thriniaeth ddeintyddol.

- Roedd canlyniadau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol [5] wedi eu cofnodi'n anghyson yng nghofnodion y cleifion ac nid oeddent yn cyd-fynd â'r canllawiau a argymhellir.

- Nid oedd y rhesymau am y cyfnodau rhwng apwyntiadau cleifion wedi eu cofnodi'n gyson, sy'n golygu na ellid esbonio'r cyfiawnhad ar gyfer gwahanol gyfnodau adalw cleifion.

- Roedd cydsyniad cleifion i driniaeth wedi ei gofnodi'n anghyson. Fe'n hysbyswyd bod cydsyniad llafar yn cael ei gytuno ym mhob apwyntiad, ond nad oedd yn cael ei gofnodi bob amser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoleiddio a safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

Hefyd, nid oedd y rheswm dros gynnal archwiliadau pelydr-X a chanfyddiadau'r deintyddion ohonynt wedi cael ei gofnodi bob amser fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

***Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi cyfiawnhad ar gyfer cynnal archwiliadau pelydr-X a'u canfyddiadau fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

---

[5] Dull sgrinio sylfaenol i archwilio'r meinweoedd meddal o gwmpas y dannedd.

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Dangoswyd strwythur rheoli â llinellau adrodd ac atebolrwydd eglur. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan dîm cyfan y practis. Dywedodd y staff wrthym fod cyfle iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol a'u bod yn cael eu cynorthwyo a'u hannog gan y tîm rheoli.**

**Roedd angen i'r practis gadw dogfennau yn ymwneud ag imiwneiddio staff.**

Mae Smiles Better yn eiddo i dri deintydd. Fe'u cynorthwyir gan reolwr practis, dau ddeintydd cyswllt, a thîm o nyrsys deintyddol, hylenwyr a derbynyddion. Disgrifiwyd llinellau atebolrwydd ac adrodd eglur gan dîm cyfan y practis.

Dywedodd staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan holl aelodau tîm y practis. Canfuwyd gennym fod y staff yn eglur ac yn wybodus am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu ymhlith tîm y practis yn dda a bod cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd yn cael eu cynnal. Argymhellwyd gennym fod y practis yn ffurfioli'r broses ar gyfer cyfarfodydd tîm ac yn cofnodi trafodaethau a chanlyniadau fel y gellir cyfeirio atynt yn y dyfodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ddatblygu proses wedi'i ffurfioli ar gyfer cynnal cyfarfodydd tîm a sicrhau bod cofnodion o drafodaethau a chanlyniadau yn cael eu cynnal.***

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith â'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Nid oedd mwyafrif y polisïau i ni eu gweld wedi eu llofnodi gan y staff, nac yn cynnwys y dyddiadau adolygu a rhifau fersiwn. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bosibl asesu a oedd yr holl staff wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a pha un a oedd y fersiwn fwyaf cyfredol ar gael.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod ganddo system ar waith i adolygu polisïau a gweithdrefnau a dangos bod y rhain wedi cael eu cyfathrebu'n briodol i'r staff.***

Fe'n hysbyswyd nad oedd gwerthusiadau staff yn cael eu cynnal.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn gwerthusiadau o'u gwaith yn rheolaidd.***

Canfuwyd gennym fod y staff clinigol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad. Gwelsom gofnodion ar gyfer rhai o'r staff yn dangos eu bod wedi derbyn imiwneiddiad yn erbyn Hepatitis B i ddiogelu cleifion a'u hunain yn erbyn heintiau. Nid oeddem yn gallu cadarnhau'r statws imiwneiddio ar gyfer dau aelod o staff. Hysbyswyd rheolwr y practis am ein canfyddiadau a dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael eu himiwneiddio ond nad oedd y dogfennau ategol ar gael. Yn unol â phroses AGIC, gofynnwyd am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan y practis o'r camau a gymerwyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella (sy'n gofyn am gynllun gwella ar unwaith)***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B a sicrhau bod tystysgrifau a chanlyniadau imiwneiddiad ar gael i'w harchwilio gan AGIC.***

Darparodd y practis gynllun gwella ar unwaith i AGIC. Fe'n sicrhawyd bod trefniadau priodol wedi cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r gwelliant yr oedd ei angen.

Roedd y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru ag AGIC wedi eu harddangos yn amlwg fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Nid oedd tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer yr holl ddeintyddion a oedd yn gweithio yn y practis. Mae'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat yn ei gwneud yn ofynnol bod gan yr holl ddeintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddol yng Nghymru dystysgrif a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ystod y tair blynedd flaenorol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid bod gan yr holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'u cofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i gwneud ar gael i AGIC ei harchwilio.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Smiles Better yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[6] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[7] Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Trafodaethau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad rheoliadau perthnasol yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Smiles Better

## Dyddiad yr Arolygiad: 30 Ionawr 2017

| **Rhif y dudalen** | **Yr hyn y mae angen ei wella** | **Rheoliad / Safon** | Camau gweithredu'r practis | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | | |
| Tudalen 6 | Rhaid i'r practis arddangos y rhestr brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat mewn lle amlwg.<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 2* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | Mae ffioedd am driniaeth ddeintyddol breifat bellach yn cael eu harddangos ar stand yn y dderbynfa. | Jill Robinson | Ar unwaith |
| Tudalen 7 | Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat | Mae'r weithdrefn gwyno wedi cael ei diweddaru yn unol â'r safonau a'r rheoliadau perthnasol a'i hychwanegu at y wefan. | Jill Robinson | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rhaid cynnwys y weithdrefn gwyno ar wefan y practis.<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5.1*<br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Canllawiau Hysbysebu (30 Medi 2013)* | (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 15(2) | | | |
| Tudalen 7 | Dylai'r practis weithredu system ar gyfer mynd ati i gasglu adborth gan gleifion yn rheolaidd am y gwasanaeth a ddarperir. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 15(2) | Mae blwch awgrymiadau wedi cael ei osod yn y dderbynfa. Mae'r rheolwyr wedi trafod manteision ac anfanteision holiaduron, gan fod eu llwyddiant wedi bod yn gyfyngedig yn y gorffennol – ni wnaed penderfyniad hyd yn hyn. | Jill Robinson | Ar unwaith |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | | |
| Tudalen 9 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio rhwng y cypyrddau a'r llawr presennol (neu | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat | Mae'r ystafell driniaeth yn Rhif 2 wedi cael ei hailddodrefnu'n llwyr, gan gynnwys llawr newydd yn unol | Jill Robinson | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | wneud trefniadau priodol eraill) i atal dŵr, llwch a malurion rhag casglu yn yr ystafelloedd triniaeth a nodwyd.<br><br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1): Pennod 6, paragraff 6.46–49* | (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(6) | â rheoliadau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<br><br>Mae'r llawr yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear yn Rhif 4 wedi cael ei selio lle roedd difrod iddo. | | |
| Tudalen 9 | Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r canllawiau a amlinellir yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) o ran:<br><br>• gwneud profion a dilyn gweithdrefnau ar gyfer awtoclafau a'r offer bath uwchsonig<br><br>• cynnal cofnodion o brofion ar offer<br><br>*Memorandwm Technegol Iechyd* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(4), 14(5) | Mae profion dyddiol ar awtoclafau ac offer bath uwchsonig wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac mae'r canlyniadau wedi cael eu dogfennu a'u cadw.<br><br>Mae stribedi ffoil o brofion ar yr offer bath uwchsonig bellach yn cael eu cadw gyda'r adroddiadau.<br><br>Mae'r holl staff clinigol sy'n gyfrifol am brofi a dilysu wedi cael eu hatgoffa am yr angen i gofnodi profion yn gywir. | Elyse Macdonald | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1): Pennod 4, Pennod 12, Pennod 14 ac Atodiad 3* | | | | |
| Tudalen 10 | Dylai'r practis gofnodi'r dyddiad ar gyfer defnyddio neu ailbrosesu offerynnau ar becynnau offerynnau wedi'u dadheintio.<br><br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05* (Diwygiad 1): Pennod 4, paragraff 4.26 | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(4) | Mae dyddiadau prosesu a dyddiadau dod i ben yn cael eu nodi ar becynnau'r offerynnau sydd wedi cael eu dadheintio.<br><br>Mae'r holl staff clinigol sy'n gyfrifol am ddadheintio wedi cael eu hysbysu am yr angen i nodi'r ddau ddyddiad. | Elyse Macdonald | Ar unwaith |
| Tudalen 11 | Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau'r canlynol, yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU):<br><br>• Bod pecyn llawn a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis bob amser<br><br>• Bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer yr offer a ddefnyddir mewn achos brys | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(2) | Mae'r practis wedi prynu'r holl amrediad o lwybrau anadlu artiffisial fel yr argymhellwyd. Er nad oes dyddiad dod i ben ar y pecynnau, fel y gofynnwyd amdano gan AGIC, mae'r mater hwn wedi cael ei ailwirio gyda'n cyflenwr ni, sydd wedi rhoi sicrwydd mai dyna sy'n arferol.<br><br>Mae'r cyffuriau a'r offer brys yn cael eu gwirio bob wythnos. Mae silindrau ocsigen yn cael eu gwirio bob dydd. Mae'r holl wiriadau'n cael | Elyse Macdonald | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol* | | eu cofnodi. Mae'r ddiffibriliwr allanol awtomatig yn cael ei wirio bob dydd. | | |
| Tudalen 11 | **Yr hyn y mae angen ei wella (sy'n gofyn am gynllun gwella ar unwaith)**<br><br>Mae angen i'r practis sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd bob blwyddyn a sicrhau bod y tystysgrifau ar gael i AGIC eu harchwilio.<br><br>*Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol*<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 1.5.3* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(2) | Mae Mary Toy o Fountain Training wedi darparu sesiynau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd mewnol er 2008, gyda'n dyddiad nesaf ni wedi'i drefnu ar gyfer 3 Mai 2017. Ers arolygiad AGIC, mae un o'r ddwy dystysgrif ar gyfer staff clinigol a oedd ar goll wedi cael ei lleoli ac anfonwyd copi at AGIC. Ni wnaed ffolder datblygiad proffesiynol parhaus aelod staff 2 ar gael yn ystod yr arolygiad. Ar ôl ymchwilio i'r mater, canfûm fod ganddi dystysgrif cymorth cyntaf brys dyddiedig 4 Mawrth 2014 a thystysgrif hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd Smiles Better o 22 Hydref 2014 (tair awr). Rydym yn | Jill Robinson | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | hyderus y bydd yr holl aelodau clinigol o'r tîm yn bodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus craidd fel y'u diffinnir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Bydd y ddau aelod yn mynychu'r sesiwn ym mis Mai. Anogir pob aelod o'r tîm i fynychu ein sesiynau hyfforddi dadebru cardio-pwlmonaidd. | | |
| Tudalen 13 | Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y’u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(1)(b) | Bydd archwiliad o gofnodion cleifion mewn perthynas â'r meysydd a nodwyd gan AGIC yn cael ei gynnal am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2017 ac wedi bob chwe mis. | Nigel Jones | Mis Mawrth wedyn bob chwe mis |
| Tudalen 13 | Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio | Atgoffwyd clinigwyr am eu | Nigel Jones | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | rheswm dros gynnal sganiau pelydr-X a'r canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1* | (Datguddio Meddygol) 2000, Rheoliad 6 | cyfrifoldeb i gyfiawnhau ac adrodd yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | | |
| Tudalen 14 | Dylai'r practis ddatblygu proses ffurfiol ar gyfer cynnal cyfarfodydd tîm a sicrhau bod cofnodion o'r trafodaethau a'r canlyniadau'n cael eu cynnal.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(2) | Mae'r practis wedi cynnal a dogfennu cyfarfodydd staff ers nifer o flynyddoedd, er eu bod wedi bod braidd yn anaml.<br><br>Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gyflwyno system ar gyfer cynnal cyfarfodydd staff ffurfiol bob mis neu ddau. | Jill Robinson | Ar unwaith |
| Tudalen 14 | Dylai'r practis sicrhau bod ganddo system ar waith i adolygu polisïau a gweithdrefnau, a dangos bod y staff wedi cael eu hysbysu am y rhain | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u | Mae tanysgrifiad parhaus y practis i Gyngor Deintyddol Prydain yn sicrhau ein bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion polisi.  Wrth i bolisïau, | Jill Robinson | Yn parhau |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | mewn modd priodol.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6* | diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(2) | gweithdrefnau a phrotocolau newydd gael eu cyflwyno neu'u diweddaru, bydd yn ofynnol i staff eu darllen, eu llofnodi a’u dyddio i nodi eu bod wedi cael eu hysbysu amdanynt yn briodol. | | |
| Tudalen 15 | Rhaid i'r practis sicrhau bod gwaith yr holl staff yn cael ei arfarnu'n rheolaidd.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.6.1* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y’u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(2) | Mae arfarniadau wedi cael eu cynnal yn y gorffennol ac nid oedd staff na rheolwyr yn mwynhau'r profiad. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud pob ymdrech i roi arfarniadau rheolaidd ar waith. | Nigel Jones, Jill Robinson | Chwe mis |
| Tudalen 15 | **Yr hyn y mae angen ei wella (sy’n gofyn am gynllun gwella ar unwaith)**<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B a sicrhau bod y tystysgrifau a | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y’u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(2) | Mae gan y practis gontract iechyd galwedigaethol ar waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r holl staff nad oedd ganddynt dystysgrifau neu'r rhai a oedd ganddynt dystysgrifau hŷn bellach wedi cael profion gwaed, pigiadau atgyfnerthu neu maent yn y broses o gael set newydd o bigiadau | Jill Robinson | Yn parhau – bydd yn cymryd nifer o fisoedd cyn i statws Hepatitis B terfynol gael ei dderbyn ar gyfer y |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | chanlyniadau'r imiwneiddio ar gael i AGIC eu harchwilio.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 1.4.2* | | imiwneiddio.<br><br>Rydym wedi gweithredu system newydd ar gyfer cofnodi ac olrhain y statws Hepatitis B ar gyfer staff cyfredol a staff newydd. | | staff sy'n derbyn y cwrs cyflawn. Tua mis Mehefin 2017 |
| Tudalen 16 | Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat fod yn berchen ar dystysgrif gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 13, Atodlen 2 | Nodwyd bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer dau glinigydd dros dair blwydd oed. Mae gwiriadau newydd wedi cael eu cofrestru gyda gwasanaethau datgelu Mayflower. | Jill Robinson | Diwedd mis Mawrth |

**Cynrychiolydd y Practis:**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **JILL ROBINSON** |
| **Teitl:** | **RHEOLWR Y PRACTIS** |
| **Dyddiad:** | **22 Mawrth 2017** |